NODIADAU

Cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion

CANOL Y SIR

9 Ionawr 2018
Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan

6.30pm – 8.20pm

1	**Yn bresennol**	
	Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn - Arweinydd y Cyngor; Eifion Evans – Prif Weithredwr; Justin Davies – Prif Gyfrifydd; Arwyn Morris - Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Gwasanaethau Cwsmeriaid; Alan Haird – Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau; Pennaeth yr Economi a Pherfformiad Aelodau Cabinet: Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd Cynghorwyr Sir: Y Cynghorwyr Bryan Davies, Euros Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Hag Harris, Lynford Thomas, Ivor Williams Y Cynghorwyr Elen Lewis, Haf Hughes, – Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad; Y Cynghorydd Rhian Turner – Cyngor Cymuned Llangeitho; Y Cynghorwyr Karine Davies, Gwilym Jenkins – Cyngor Tref Tregaron; Y Cynghorwyr William Green, Sion Jenkins, Hazel Ann Thomas, Alwena Williams – Cyngor Cymuned Llanwenog; Y Cynghorwyr Dinah Mullholland, Kistiah Ramaya – Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan; Y Cynghorydd Bryan Tomlins – Cyngor Cymuned Llansantffraed; Y Cynghorydd John Lumley - Cyngor Cymuned Ciliau Aeron; Heulwen Bulman – Clerc Cynghorau Cymuned Lledrod a Llangeitho a Chyngor Tref Tregaron; Eleri Thomas – Clerc Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Chyngor Cymuned Ystrad Fflur.	
2	**Ymddiheuriadau**	
	Y Cynghorwyr Dan Potter a Julian Evans – Cyngor Tref Ceinewydd	
3	**Croeso a chyflwyniad cyffredinol gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor, gan gynnwys esboniad o drefn y Cyfarfod.**	**Arweinydd y Cyngor**

	Croesawodd yr Arweinydd bawb i'r cyfarfod a dywedodd ei bod yn bwysig cwrdd â'r Cynghorau Tref a Chymuned bob blwyddyn; dyma oedd y cyfle i drafod yr heriau a'r materion lleol. Bu i'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn gyflwyno Mr Eifion Evans, Prif Weithredwr newydd Cyngor Sir Ceredigion. Amlinellodd y Cynghorydd ap Gwynn strwythur gwleidyddol y Cyngor yn dilyn yr etholiad ym mis Mai. - Grwpiau'r Weithrediaeth: Plaid Cymru (20), Annibynwyr (11) a Llais Annibynnol (3); - Grŵp nad ydyw'n rhan o'r Weithrediaeth - Democratiaid Rhyddfrydol (8). Mae'r Cabinet yn cynnwys 8 Cynghorydd sydd â'r cyfrifoldebau canlynol: • Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn - Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Bolisi, Partneriaethau, Iaith a Rheoli Perfformiad • Y Cynghorydd Ray Quant MBE - Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Technegol a'r Gwasanaethau Corfforaethol • Y Cynghorydd Dafydd Edwards - Cyllid, Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaethau Cwsmeriaid ynghyd â Thai • Y Cynghorydd Rhodri Evans - Gwasanaethau Ffordd o Fyw • Y Cynghorydd Catherine Hughes - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai • Y Cynghorydd Gareth Lloyd - Datblygu Economaidd a Datblygu Cymunedol • Y Cynghorydd Catrin Miles - Gwasanaethau Dysgu, Dechrau'n Deg a'r Tîm o Amgylch y Teulu • Y Cynghorydd Alun Williams - Rheoli Carbon, Cynaliadwyedd, Trafnidiaeth ac Iechyd Meddwl Hefyd, tynnodd yr arweinydd sylw at waith pwysig Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor sy'n archwilio amrywiol swyddogaethau'r Cyngor, gan ofyn cwestiynau ynghylch y penderfyniadau a wneir ac ystyried y gwelliannau y gellid eu gwneud i'r gwasanaethau trwy wneud argymhellion i'r Cabinet yn unol â hynny.	
4	**Gweledigaeth Strategol y Cyngor**	**Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr**
	Amlinellodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017-2022 a oedd newydd ei mabwysiadu ac ar gael ar wefan y Cyngor: http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisïau/strategaethau/ Mae'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Gorfforaethol fel a ganlyn: • Hybu'r Economi h.y. Moderneiddio safleoedd busnes, canolfannau a chanol ein trefi; Hwyluso a chefnogi twf mewn sectorau economaidd gwerth uchel - gweithio gyda'r sector preifat a'r Prifysgolion i sicrhau	

	mewnfuddsoddiad i Geredigion. • Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl: h.y. rhaglenni hyfforddi priodol sy'n cynnig modd i ddysgwyr ateb anghenion cyflogaeth busnesau yng Ngheredigion nawr ac yn y dyfodol. • Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd h.y. ymyrraeth gynnar ac atal; bydd sefydliadau gwirfoddol yn darparu'r seilwaith cymunedol angenrheidiol i sicrhau bod cymunedau yn fwyfwy cydnerth. • Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol h.y. meithrin ymdeimlad cynyddol o falchder yn ein cymunedau lle mae rhwydweithiau yn cydweithio i gefnogi ei gilydd a gwarchod yr amgylchedd lleol; diogelu cymunedau arfordirol, parhau i leihau gwastraff a rheoli ein hallyriadau carbon. Dywedodd Eifion Evans fod y toriadau mawr yn y gyllideb er 2012 wedi arwain at newid yn y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu. Yn yr un cyfnod, bu gostyngiad o 50% yn nifer yr uwch reolwyr.	
5	**Rheoli'r Gyllideb**	**Y Prif Weithredwr a'r Prif Gyfrifydd**
	Rhoddodd Justin Davies, y Prif Gyfrifydd, gyflwyniad am sefyllfa'r gyllideb yn 2017/18 ynghyd â'r incwm a'r diffyg a ragwelir o ran y gyllideb refeniw ar gyfer y 3 blynedd nesaf (gweler y sleidiau atodedig am fwy o wybodaeth). *Cwestiynau ac Atebion ynglŷn â'r gyllideb:* 1. Beth yw bil Treth y Cyngor pob aelwyd ar gyfartaledd? - Yn 2017/18, codir £1,068 ar eiddo Band D. Mae hyn ychydig yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer eiddo Band D. 2. Beth yw'r rheol os oes rhywun yn berchen ar ddau gartref a bod un o'r cartrefi hynny yn dŷ haf? - Mae'r Cyngor wedi cytuno ar bremiwm o 25% ar ail gartrefi. Serch hynny, mae nifer wedi trosglwyddo i Ardrethi Busnes. 3. Mae angen swyddi ar bobl ifanc ar ôl iddynt orffen eu prentisiaethau - sut ydych chi'n delio â hyn? - Mae'r blaenoriaethau yn y Strategaeth Gorfforaethol yn canolbwyntio ar fewnfuddsoddiad ond hefyd bydd y Cynlluniau Bro yn helpu. 4. A ydy pob aelwyd yn talu Treth y Cyngor? - Mae gan Geredigion y cyfraddau casglu uchaf yng Nghymru, Mae 98.5% o Dreth y Cyngor yn cael ei chasglu. Hefyd, mae Cynllun Cymorth Treth y Cyngor ar gael i bobl ar yr incwm isaf. Caiff hyn ei asesu yn ôl angen.	
6	**Gwasanaethau Cwsmeriaid – Clic Ceredigion**	**Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Gwasanaethau Cwsmeriaid**

	Rhoddodd Arwyn Morris, Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Gwasanaethau Cwsmeriaid gyflwyniad am Clic Ceredigion sef y drefn newydd ar gyfer y Gwasanaethau Cwsmeriaid (gweler y sleidiau atodedig am fwy o wybodaeth). Dywedodd Mr Morris y byddai gan Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned broffil ar gyfer mewngofnodi lle byddai modd i'w holl ymholiadau gael eu rheoli. Cadarnhawyd y byddai Gweithdy yn cael ei gynnal maes o law i helpu'r clercod i sefydlu eu cyfrifon ac i ddangos iddynt sut y byddai'r system yn gweithio. *Cwestiynau ac Atebion ynglŷn â Chlic Ceredigion.* 1. Beth fydd effaith hyn ar swyddi? Faint o swyddi fydd yn cael eu colli ac ym mha feysydd? - Ni fydd dim swyddi yn cael eu colli. Mae'r staff perthnasol yn cael eu canoli yn y Ganolfan Gwsmeriaid fel y gall y Cyngor ddarparu gwasanaeth cadarn a chryf. Ni osodwyd targedau ar gyfer gwneud arbedion o ran y prosiect hwn ond bydd y prosiect yn cynnig arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau i'r gwasanaeth. - Crëwyd y prosiect hwn o ganlyniad i'r adborth a gafwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn y cyfarfodydd blaenorol. - Mae Clic Ceredigion wedi'i ddatblygu'n fewnol; felly byddai unrhyw adborth ynglŷn â ffyrdd o'i wella yn cael ei groesawu. 2. Os byddwn yn rhoi gwybod am dwll yn y ffordd, pa mor hir fydd hi cyn y bydd y twll hwnnw yn cael ei lanw? Ar sawl achlysur, caiff y twll ei lanw dros dro ond nid yw hyn ond yn golygu bod angen gwneud y gwaith unwaith eto. - Mae'r amser y mae'n ei gymryd i lanw twll yn dibynnu ar nifer o ffactorau ac mae'n seiliedig ar asesiad Archwilwyr y Briffordd. Yr asesiadau hyn sy'n pennu'r rhaglen waith ar gyfer atgyweiriadau a byddwn yn rhoi amcangyfrif i chi o'r amserlen ar gyfer gwaith atgyweirio h.y. wythnos, mis, ac ati.	
7	**Cynlluniau Bro**	**Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau**
	Rhoddodd Alan Haird, Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau gyflwyniad ynglŷn â Chynlluniau Bro Ceredigion (gweler y sleidiau atodedig am ragor o wybodaeth). *Cwestiynau ac Atebion ynglŷn â'r Cynlluniau Bro:* 1. Sut mae'r Cynlluniau Bro yn cyd-fynd â phroses y Cynllun Datblygu Lleol? - Pe byddent yn cael eu mabwysiadu, byddent yn dod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol. Byddai'n rhaid i Gynlluniau Bro ystyried tystiolaeth - ond o ran y Cynllun Datblygu Lleol, canllawiau fyddent yn hytrach na pholisi. 2. Mae yna rai materion ymarferol sydd angen eu hystyried o ran y Wardiau cyfagos e.e. yn Ward Ciliau Aeron - mae gan Henfynyw gysylltiadau ag Aberaeron ond byddai Cilcennin yn troi tuag at Ddyffryn Aeron a Felinfach. 3. O ble fyddai'r Hyrwyddwr yn dod? - Byddai'r Hyrwyddwr yn dod o'r Cynghorau Tref / Cymuned.	

4. A fydd hyn o gymorth i blwyf fel Llanwenog lle mae'r rheini sy'n ceisio cael caniatâd cynllunio wedi cael gwybod nad oes modd adeiladu rhagor o dai yn yr ardal?
   - Na fydd, ond byddwch yn ymwybodol bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu. Yn eich cymunedau, mae angen i chi nodi eich anghenion.
   - Bydd angen i chi fod yn uchelgeisiol ac yn arloesol; bydd hyn yn gofyn am gydweithio a gweledigaeth i wella ein cymunedau.

8 Cwestiynau ac Atebion Cyffredinol

1. Pan fyddwn yn gofyn am ddata sy'n ymwneud â gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, cawn wybod nad oes unrhyw ddamweiniau wedi bod, hyd yn oed os bydd yr Heddlu neu'r Gwasanaeth Tân wedi'u galw i safle'r ddamwain. A fyddai modd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu daro golwg ar hyn?
   - Awn â'r neges hon yn ôl er mwyn ystyried hyn ymhellach.

2. Beth sy'n digwydd o ran y pwll nofio yn Nhregaron?
   - Mae problemau mawr gyda'r pwll am ei fod yn gollwng dŵr. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud i gau'r pwll ond mae angen inni ddeall union faint y broblem h.y. maint y gollyngiad. Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'r pwll h.y. system boeler a chlorin newydd. Serch hynny, ni allwn roi sicrwydd i chi ar hyn o bryd ond bydd pob opsiwn yn cael ei ystyried.
   - Mae'r rheini oedd wedi talu o flaen llaw am eu gwersi nofio wedi cael eu had-dalu.
   - Mae'r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad mawr i Dregaron gan fuddsoddi yn Ysgol Henry Richard a datblygiad Cylch Caron. Ni allwn gymryd dim o'r arian sydd wedi'i fuddsoddi yn yr ysgol i gefnogi'r pwll nofio.

3. Oni ddylai pob plentyn gael gwersi nofio?
   - Mae'n statudol ofynnol cynnig gwersi nofio i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ond i neb arall.

4. Beth yw'r sefyllfa o ran parcio yn Llanbedr Pont Steffan, yn benodol ar Stryd y Coleg? A oes modd cael gwared â'r wal?
   - Mae'r peiriannwyr yn ystyried yr opsiynau ar Stryd y Coleg. Pan fyddwn wedi penderfynu ar yr opsiynau terfynol, byddwn yn cysylltu â Chyngor y Dref.
   - Nid oes modd symud y wal am ei bod yn wal restredig Gradd II.

5. Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a ydy sefydliadau tai cymdeithasol yn perfformio'n ddigon da i dderbyn Grantiau Tai Cymdeithasol?
   - Cyflwynir yr adroddiadau i'r Cabinet ond mae perthynas dda hefyd rhwng Swyddogion Tai'r Cyngor a Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn ymwybodol ar hyn o bryd o unrhyw broblemau i'r perwyl hwnnw.
   - Mae Ceredigion hefyd wedi bod yn llwyddiannus o ran tynnu i lawr mwy o gyllid o'r Grant Tai Cymdeithasol na'r dyraniad gwreiddiol.

NOTES

Meeting between Ceredigion County Council and the Town and Community Councils in Ceredigion

MID COUNTY

9th January 2018
Ysgol Bro Pedr, Lampeter

6.30pm – 8.20pm

1	**Present**	
	Councillor Ellen ap Gwynn – Leader of the Council; Eifion Evans – Chief Executive; Justin Davies – Chief Accountant; Arwyn Morris – Head of ICT and Customer Services; Alan Haird – Project Management and Development Officer; Russell Hughes-Pickering – Head of Performance and Economy. Cabinet Members: Councillors Dafydd Edwards, Rhodri Evans Catherine Hughes, Gareth Lloyd County Councillors: Councillors Bryan Davies, Euros Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Hag Harris, Lynford Thomas, Ivor Williams Councillors Elen Lewis, Haf Hughes, – Llanfihangel Ystrad Community Council; Councillor Rhian Turner – Llangeitho Community Council; Councillors Karine Davies, Gwilym Jenkins – Tregaron Town Council; Councillors William Green, Sion Jenkins, Hazel Ann Thomas, Alwena Williams – Llanwenog Community Council; Councillors Dinah Mullholland, Kistiah Ramaya – Lampeter Town Council; Councillor Bryan Tomlins – Llansantffraed Community Council; Councillor John Lumley – Ciliau Aeron Community Council; Heulwen Bulman – Clerk Lledrod and Llangeitho Community Councils and Tregaron Town Council; Eleri Thomas – Clerk Lampeter Town Council and Ystrad Fflur Community Council.	
2	**Apologies**	
	Councillors Dan Potter and Julian Evans – New Quay Town Council	
3	**Welcome and general introduction from Councillor Ellen ap Gwynn, Leader of the Council, setting the format of the Meeting.**	**Leader of the Council**

	The Leader welcomed everyone to the meeting and stated that it is important to meet with Town and Community Councils annually; it is an opportunity to discuss the challenges and local issues. Councillor Ellen ap Gwynn introduced Mr Eifion Evans who is the newly appointed Chief Executive of Ceredigion County Council. Councillor ap Gwynn outlined the political structure of the Council following the Election in May: - Executive Groups: Plaid Cymru (20), Independents (11) and Independent Voice (3); - Non- Executive Group – Liberal Democrats (8). The Cabinet is made up of 8 Councillors, with the following responsibilities: • Cllr Ellen ap Gwynn - Leader of the Council and Cabinet Member for Policy, Partnerships, Language and Performance Management • Cllr Ray Quant MBE - Deputy Leader of the Council and Cabinet Member for Technical Services and Corporate Services • Cllr Dafydd Edwards - Finance, ICT and Customer Services along with Housing • Cllr Rhodri Evans - Lifestyle Services • Cllr Catherine Hughes - Social Services and Housing • Cllr Gareth Lloyd - Economic Development and Community Development • Cllr Catrin Miles - Learning Services, Flying Start and Team Around the Family • Cllr Alun Williams - Carbon Management, Sustainability, Transport and Mental Health. The Leader also highlighted the important work of the Overview and Scrutiny Committees of the Council who examine the various functions of the council, to ask questions on how decisions have been made, to consider whether service improvements can be put in place and to make recommendations to Cabinet to this effect.	
4	**The Council's Strategic Vision**	**Leader of the Council and Chief Executive**
	Councillor Ellen ap Gwynn, Leader of the Council outlined the Council's newly adopted Corporate Strategy 2017-2022, which is available on the Council website: http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/strategies/ The priorities within the Strategy are as follows: • Boosting the Economy: i.e. Modernisation of business sites, hubs and our town centres; Facilitating and supporting growth in high value economic sectors – working with the private sector and Universities to ensure inward investment to Ceredigion • Investing in People's Futures: i.e. appropriate training programmes that	

	enable learners to meet the employment needs of current and future businesses within Ceredigion • Enabling Individual and Family Resilience i.e. early intervention and prevention; voluntary organisations will provide the necessary community infrastructures to ensure communities are increasingly resilient • Promoting Environmental and Community Resilience: i.e. increased sense of pride in our communities and working together to support each other and protect local environment; protection of coastal communities, maintaining waste reduction and management of our carbon emissions. Eifion Evans stated that the significant budget cuts since 2012 has resulted in a change in the way services are delivered. In this same period, the number of senior managers has reduced by 50%.	
5	**Budget Management**	**Chief Executive and Chief Accountant**
	Justin Davies, Chief Accountant presented the budget position for 2017/18 in addition to projected revenue budget income and shortfall for the next 3 years (please refer to the presentation slides attached for further information). *Question and Answers relating to the budget:* 1. What is the average Council Tax bill per household? - Band D for 2017/18 is £1,068, which is slightly lower than the National average for Band D properties 2. What is the rule if someone owns two homes and one may be a summer home? - The Council has agreed on a 25% premium on second homes; however, many have transferred to Business Rates 3. There needs to be jobs out there for young people after their apprenticeships – how are you dealing with that? - The priorities in the Corporate Strategy focus on inward investment but also the Place Plans will help 4. Does every household pay Council Tax? - Ceredigion has the highest collection rates in Wales, with 98.5% of Council Tax being collected. In addition, there is a Council Tax Support Scheme for those on the lowest incomes, assessed by need.	
6	**Customer Services – Clic Ceredigion**	**Head of ICT and Customer Services**
	Arwyn Morris, Head of ICT and Customer Services presented the new Clic Ceredigion – Customer Services solution (please refer to the presentation slides attached for further information).	

Mr Morris stated that Town and Community Council Clerks will have a log in where all enquiries can be managed. It was confirmed that a Workshop will be held in due course to help clerks set up their accounts and to show them how the system works.

Question and Answers relating to Clic Ceredigion:

1. What is the impact on jobs in creating this? How many jobs will be lost and in what areas?
   - There will be no loss of jobs. The relevant staff are being centralised in the Customer Centre to enable the Council to provide a robust and resilient service. There were no savings targets put against this project, but it will provide service efficiencies and improvements
   - This was created as a result of feedback received from Town and Community Councils at previous meetings
   - Clic Ceredigion has been developed internally; therefore any feedback on ways of improvement would be welcomed.

2. If we report a pothole, how long will it be until it is fixed? We see several occasions when a pothole is repaired temporarily but that only leads to having to carry out the work again.
   - The repair time is dependent on a number of factors and is based on Highway Inspectors' assessment. These assessments create the work programme for repairs and you will be informed of an estimate timescale for repair i.e. a week, month etc.

7	**Place Plans**	**Project Management and Development Officer**

Alan Haird, Project Management and Development Officer presented the concept of Ceredigion Place Plans (please refer to the presentation slides attached for further information).

Question and Answers relating to Place Plans:

1. How do Place Plans fit in with the future LDP process?
   - They would become Supplementary Planning Guidance, if adopted. Place Plans would have to take into account evidence – but in terms of the LDP, they would be guidance rather than Policy.

2. There are some practical issues that need to be considered in terms of the surrounding Wards e.g. within the Ward of Ciliau Aeron - Henfynyw has links with Aberaeron, but Cilcennin would link in with the Aeron Valley and Felinfach

3. Where does the Champion come from?
   - The Champion would come from the Town or Community Councils

4. Does this mean that for a parish like Llanwenog, for those trying to get planning permission but have been told that the maximum number of houses has been reached – will this help them?

	- No, but you will be aware that the LDP is being reviewed. In your communities, you need to identify what your needs are. - You need to be ambitious and innovative; it will require joint working and vision to improve our communities.
8	**General Questions and Answers** 1. When we ask for data relating to road traffic collisions, we get answers back saying that there haven't been any accidents, even when the Police or Fire Service have attended the scene. Is this something that Overview and Scrutiny could look at? - We will take that back for further consideration. 2. What is happening with the swimming pool in Tregaron? - There are significant problems with the pool, which is leaking. There has been no decision made to close the pool, but we need to fully understand the size of the problem i.e. significant leak. The Council has made improvements to the pool i.e. new boiler and chlorine system; however, we cannot give you assurance at this time, but all options will be considered. - Those that had pre-paid for swimming lessons have been reimbursed. - The Council has made significant commitment to Tregaron, with investment in Ysgol Henry Richard and the Cylch Caron development. We cannot take any money away from the investment being made to the school to support the swimming pool. 3. All children should be having swimming lessons? - It is statutory to offer swimming lessons to Key Stage 2 pupils but no others. 4. What is the position regarding parking in Lampeter, in particular on College Street? Can the wall be removed? - Engineers are looking at options for College Street. When final options are available, we will be in touch with the Town Council. - The wall cannot be removed as it is Grade II listed 5. How does the Council decide whether a Social Housing organisations is performing well enough to receive Social Housing Grants? - Reports are presented to Cabinet, but there is also good dialogue between the Council's Housing Officers and Welsh Government. We are currently not aware of any competency issues. - Ceredigion has also been successful in drawing down more Social Housing Grant than its original allocation.